Afasic GeirfA

Y sbectrwm awtistaidd

Beth yw'r sbectrwm awtistaidd?

Mae'r Daflen Eirfa hon yn delio ag un o nifer o dermau, ac mae pob un yn deillio o arsylwi nodweddion grwpiau o blant: **awtistiaeth, anhwylder datblygiadol hydreiddiol, Syndrom Asperger**, ac **anhwylderau semantig a phragmatig.** Bydd anhwylder rhai plant yn cyfateb â'r diffiniad ar gyfer unrhyw derm penodol yn eithaf da, tra y bydd llawer o'r rhai eraill yn ymddangos ar y ffin.

Mae'r farn gyfredol yn awgrymu ei bod yn bosibl y bydd y plant y mae'r pedwar term yn berthnasol iddynt yn profi graddau gwahanol o anhawster gyda nodwedd o'r ffordd y bydd pobl yn meddwl, sef cysyniad neu theori'r meddwl. Mae hwn yn cynnwys y gallu i rannu emosiynau ac i weld rhywbeth o safbwynt rhywun arall. Ystyrir y gallu datblygol hwn erbyn hyn fel rhagamod ar gyfer ymddygiad cymdeithasol priodol a dull effeithiol o rannu trwy gyfathrebu.

Mae clinigwyr yn cyfeirio'n gynyddol at y **sbectrwm awtistiaeth**. Mae'r term hwn yn cynnwys y pedair prif label. Mae mwy o ddadl ynghylch y label semantig-pragmatig na'r tair arall. Mae angen nodi a mynd i'r afael â nodweddion penodol anawsterau pob plentyn o hyd gan fod pob plentyn yn amrywio'n fawr.

Cyfeiriadau

Frith, U (1989), Autism: Explaining the Enigma, Basil Blackwell

Bishop, D (1989), Autism, Asperger's syndrome and semantic-pragmatic disorder: where are the boundaries? yn *British Journal of Disorders of Communication* 24, t.107-121

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Awtistiaeth (7)
- Anhwylderau datblygiadol hydreiddiol (16)
- Syndrom Asperger (11)
- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)

Sefydliadau eraill a all helpu

National Autistic Society Cymru
Langford Court, Neath, West Glamorgan SA10 7HN
Ffôn: 01792 326 820

Autism Cymru National Office
6 Great Darkgate Street, Aberyswyth SA23 1DE
Ffôn: 01970 625 305

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.